# Coleg Gŵyr Abertawe

## Polisi Recriwtio Cyn-droseddwyr

Bydd y polisi ar gael i bob ymgeisydd sy'n dymuno gwneud Datgeliad ar ddechrau'r broses recriwtio.

Fel sefydliad sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i asesu addasrwydd ymgeiswyr i swyddi o ymddiriedolaeth, mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer DBS ac yn ymrwymedig i drin pob ymgeisydd yn deg.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i beidio â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unrhyw Ddatgeliad ar sail euogfarn neu unrhyw wybodaeth arall cysylltiedig.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i drin staff, darpar staff neu ddefnyddwyr gwasanaeth yn deg, waeth beth fo'u hil, rhyw, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldebau am ddibynyddion, oedran, anabledd corfforol/meddwl neu gefndir troseddol.

Rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bob unigolyn sydd â chyfuniad addas o ddawn, sgiliau a photensial ac rydym yn croesawu ceisiadau gan ystod eang o ymgeiswyr, gan gynnwys rhai sydd â chofnodion troseddol. Rydym yn dewis ymgeiswyr ar gyfer cyfweliadau ar sail eu sgiliau, cymwysterau a'u profiad.

Dim ond ar ôl asesiad risg trylwyr y gofynnir am Ddatgeliad, a rhaid i'r asesiad risg hwnnw fod yn berthnasol i'r sefyllfa dan sylw. Ar gyfer swyddi lle mae Datgeliad yn ofynnol, bydd pob ffurflen gais, hysbyseb swydd a briff yn cynnwys datganiad yn nodi y bydd Datgeliad yn angenrheidiol os bydd yr unigolyn yn derbyn y cynnig swydd.

Pan fydd Datgeliad yn rhan o'r broses recriwtio, rydym yn annog pob ymgeisydd i ddarparu manylion eu cofnod troseddol fel rhan o'r broses ymgeisio. Dim ond unigolion awdurdodedig fydd yn cael cyrchu'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses recriwtio.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe am recriwtio unigolion i swyddi sydd wedi'u heithrio dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a gofynnir i bobl ddatgeli'r holl wybodaeth am gofnodion troseddol wrth ymgeisio am swyddi, gan gynnwys manylion a dyddiadau euogfarnau 'wedi'u disbyddu', rhybuddion, argyhoeddion a rhybuddion terfynol Os yw swydd yn destun Datgeliad Manwl, bydd y Coleg yn gofyn am wybodaeth berthnasol arall nad yw'n ymwneud ag euogfarnau, megis ymholiadau'r heddlu ac erlyniadau sydd ar y gweill.

Rydym yn sicrhau bod pawb sy'n rhan o broses recriwtio Coleg Gŵyr Abertawe wedi derbyn hyfforddiant priodol er mwyn nodi ac asesu perthnasedd ac amgylchiadau unrhyw droseddau. Rydym hefyd yn sicrhau eu bod wedi derbyn arweiniad a hyfforddiant priodol ar ddeddfwriaethau perthnasol sy'n ymwneud â chyflogi cyn-droseddwyr e.e. Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a Gorchymyn Adsefydlu Troseddwyr 1975, fel y'i diwygir.

Mewn trafodaeth sy'n digwydd ar wahan i'r cyfweliad, byddwn yn sicrhau bod sgwrs agored a phwyllog yn cael ei chynnal ar unrhyw droseddau neu faterion eraill a allai fod yn berthnasol i'r sefyllfa. Gallai methu â datgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd a geisir amdani arwain at dynnu cynnig cyflogaeth yn ôl.

Rydym yn sicrhau bod pawb sy'n destun Datgeliad DBS yn ymwybodol o'r Cod Ymarfer DBS, ac rydym yn sicrhau bod copi ar gael i bawb sy'n dymuno cyrchu'r ddogfen.  Gall unigolion ddarllen y Cod Ymarfer ar-lein trwy gyrchu'r linc isod: Cod Ymarfer DBS.

Rydym yn ymrwymedig i drafod unrhyw fater a ddatgelir mewn Datgeliad gyda'r sawl sy'n ceisio'r swydd cyn tynnu cynnig cyflogaeth amodol yn ôl.

Ni fydd cofnodion troseddol o reidrwydd yn eich atal rhag gweithio gyda ni. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y sefyllfa ac amgylchiadau a chefndir y troseddau.